Actimel Everyday Heroes Campaign

Cyflwynodd Adran Hyfforddiant Cyngor Gwledig Llanelli enwau un o'u Dysgwyr Lefel 1, Tom Jones, ar gyfer Ymgyrch Arwyr Bob Dydd Actimel.

Mae Tom wedi dangos, ac mae'n dal i ddangos, ysbryd gwirioneddol yn ystod y gwarchae trwy wirfoddoli gyda Banc Bwyd Llwynhendy/Pemberton er mwyn sicrhau bod bwyd yn cael ei gasglu a'i ddosbarthu i bobl llai ffodus yn yr ardal.

Mae Tom wastad wedi bod yn wirfoddolydd brwd, ac ef yw'r cyntaf i godi ei law i helpu. Ers dechrau'r gwarchae, mae Tom wedi rhoi ei holl amser hamdden i wirfoddoli gyda Banc Bwyd Llwynhendy/Pemberton yn cefnogi'r Cyng. Jason Hart a gwirfoddolwyr eraill. Bu Tom allan bob dydd o fore gwyn tan nos. Meddai Tom, 'Rwyf yn teimlo ei bod yn bwysig iawn helpu'r henoed a'r bregus yn y gymuned ar adeg mor anodd, ac rwyf wrth fy modd yn gwneud hyn'.

Ynghyd â'i ymrwymiad i'r banc bwyd, mae Tom wastad yn chwilio am gyfle i helpu eraill a bu'n gefnogol iawn i ddysgwr bregus sy'n byw'n agos ato. Cyn argyfwng Covid-19 roedd Tom yn gwirfoddoli i'r Cyngor yn cefnogi'r ymgynghoriadau cymunedol ar gyfer y lle chwarae newydd fydd yn cael ei adeiladu ar gyfer Trallwm. Mae Tom hefyd yn gwirfoddoli ar gyfer Ein Llwynhendy ac ef yw'r cynrychiolydd ifanc ar gyfer y grŵp.

Dangosodd awydd mawr am waith ac agwedd ofalgar a thrugarog iawn yn ystod y cyfnod anodd hwn, ac arweiniodd hynny a mwy at ei enwebiad.

Roedd yr Adran yn falch iawn o dderbyn gohebiaeth oddi wrth Actimel i ddweud fod Tom yn un o'r pum cynnig gorau a dderbyniwyd ar gyfer Ymgyrch Arwyr Bob Dydd Actimel.

Actimel Everyday Heroes Campaign

Llanelli Rural Council's Training Department put one of their Level 1 Learners, Tom Jones, forward for the Actimel Everyday Heroes Campaign.

Tom has shown, and continues to show, true spirit during lockdown in volunteering with the Llwynhendy/Pemberton Foodbank to ensure that food is collected and distributed to those less fortunate in the area.

Tom has always been a keen volunteer and is the first to put his hand up to help. Since the start of lockdown, Tom has given up all of his free time to volunteer with the Llwynhendy/Pemberton Foodbank supporting Cllr. Jason Hart and other volunteers. Tom has been out every day from morning till night. Tom said, 'I feel it's hugely important to help the elderly and vulnerable within the community at such a difficult time, and I love doing this'.

Along with his commitment to the foodbank Tom is always checking to see if he can help others and has been very supportive to a vulnerable learner who lives near him. Prior to the Covid-19 outbreak Tom volunteered for the Council in supporting the community consultations for the proposed new play area for Trallwm. Tom also volunteers for Our Llwynhendy and is the youth representative for the group.

He has shown a great work ethic and a very caring and compassionate attitude through these difficult times hence his nomination.

The Department was delighted to receive correspondence from Actimel to say that Tom was one of the five best entries received for the Actimel Everyday Heroes Campaign.